Chwarae Teg®
Solutions | Atebion

Perfformiad Personol a Sgiliau Datblygu ar gyfer Rheolwyr

Diben

Mae'r cwrs yn darparu cyflwyniad i'r sgiliau penodol sydd eu hangen i reoli eich adnoddau personol (yn enwedig gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau, profiad ac amser) a'ch datblygiad proffesiynol i chi allu cyflawni eich amcanion gwaith a'ch nodau gyrfaol a phersonol.

Sut fyddwch chi'n elwa

Bydd sefydliad sy'n barod i fuddsoddi yn natblygiad personol ei weithwyr yn elwa o wella morâl, trosiant staff isel, cadw gweithlu medrus, sy'n perfformio'n dda gan arwain at gynyddu proffidioldeb.

Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'ch rôl gwaith a sut y mae'n perthyn i weledigaeth ac amcanion cyffredinol y sefydliad tra'ch bod hefyd yn deall beth sy'n eich gyrru o ran eich gwerthoedd a'ch gyrfa, a'ch uchelgais bersonol ehangach.

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu

- Adnabod yr adnoddau personol sydd eu hangen i wneud eich gwaith
- Clustnodi a mynd i'r afael â bylchau yn eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth
- Deall sut i osod amcanion a sut i fesur cynnydd yn ôl amcanion gwaith
- Deall sut i flaenoriaethu amcanion a chynllunio gwaith i wneud y defnydd gorau o amser ac adnoddau
- Datblygu ymwybyddiaeth o'ch gwerthoedd, eich cymhellion a'ch emosiynau eich hunan
- Deall y technegau ar gyfer rheoli eich amser yn effeithiol
- Cyfathrebu ac ymddwyn mewn modd pendant

Hyd

1 diwrnod

Ffi

£185 + TAW

Disgownt o 10% am ail gynrychiolydd o'r un sefydliad

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â atebion@chwaraeteg.com neu galwch 029 2047 8900 neu ewch i'r wefan http://www.cymraeg.chwaraeteg.com/atebion